**Trawsgrifiad Recordio Pryd i beidio â defnyddio strategaeth ar gyfer rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn**

1

00:00:01,860 --> 00:00:03,250

Shwmae, Meryl ydw i.

2

00:00:03,300 --> 00:00:11,490

Meryl ydw i ac rwy'n Fferyllydd Gwrthficrobaidd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac rwy'n mynd i fod yn egluro pryd i beidio â defnyddio strategaeth rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn.

3

00:00:13,250 --> 00:00:20,750

Mae carfan benodol o gleifion ac ystyriaethau arbennig ble mae defnyddio strategaeth rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn ddim yn briodol.

4

00:00:21,740 --> 00:00:27,140

Ni ddylech ystyried strategaeth bresgripsiynu wrth gefn os yw claf yn sâl iawn yn systemig,

5

00:00:27,680 --> 00:00:35,120

ag arwyddion a symptomau salwch neu gyflwr mwy difrifol, neu mewn perygl mawr o gymhlethdodau oherwydd cyd-forbidrwydd arall.

6

00:00:36,630 --> 00:00:41,220

Mae ystyriaethau arbennig wrth ddefnyddio rhagnodi gwrthfiotigau wrth gefn mewn babanod a phlant.

7

00:00:42,120 --> 00:00:48,630

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi gwneud datganiad ar y defnydd o bresgripsiynau gwrthfiotig wrth gefn mewn babanod a phlant,

8

00:00:48,930 --> 00:00:52,020

sydd wedi'i gymeradwyo gan Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol.

9

00:00:53,010 --> 00:00:59,340

Maent yn argymell yr ystyriaethau arbennig canlynol wrth ddefnyddio presgripsiynau gwrthfiotig wrth gefn mewn babanod a phlant.

10

00:01:00,570 --> 00:01:04,650

Ni ddylech fyth ddefnyddio strategaeth ragnodi wrth gefn ar gyfer plant dan dri mis oed.

11

00:01:05,460 --> 00:01:12,510

Ni fyddai’n cael ei ystyried yn rhan o arfer arferol i ddefnyddio strategaeth rhagnodi wrth gefn ar gyfer plant dan ddwy oed,

12

00:01:12,780 --> 00:01:22,560

gan eu bod yn grŵp oedran arbennig o agored i niwed. Ac i bob plentyn, mae'n ddoeth cael systemau i alluogi a hwyluso adolygiad pellach a phrydlon.

13

00:01:23,460 --> 00:01:27,900

Dylai fod trothwy isel ar gyfer adolygu p'un a roddir gwrthfiotig ai peidio.

14

00:01:29,340 --> 00:01:36,840

Dylid darparu cyngor ar rwydi diogelwch ar ffurf canllawiau ynghylch pryd i bryderu ac i geisio asesiad pellach.

15

00:01:37,320 --> 00:01:43,710

Ac mae'n rhaid teilwra hyn i oedran y plentyn, dealltwriaeth y rhieni ac amgylchiadau'r cartref.

16

00:01:45,090 --> 00:01:48,119

Mae adnoddau presennol fel y llyfryn 'When Should I Worry',

17

00:01:48,120 --> 00:01:54,749

yn cynnwys gwybodaeth ragorol i ofalwyr a rhieni am ystod eang o gyflyrau i wella rhwydi diogelwch

18

00:01:54,750 --> 00:02:04,860

I gael gwybod mwy am y canllawiau, ewch i wefan Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan gan ddefnyddio'r ddolen a ddarperir ar y sleid hon.